Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar
Ffôn/Phone: 01974 241 334

E bost/ E mail: prif@llanilar.ceredigion.sch.uk
Gwefan / Website: www.llanilar.ceredigion.sch.uk
Trydar / Twitter: @YsgolLlanilar

YSGOL LLANILAR

Pennaeth / Head Teacher: Mrs Jan Jones

Annwyl Rieni,
Mae'r amser i ni ail-agor yr ysgol yn agosáu ac rydym yn edrych ymlaen at eich gweld. Mae Steffan a Leisa wedi creu fideo i groesawu pawb yn ôl, felly edrychwch allan amdano ar Seesaw a Trydar. Diolch yn fawr iddyn nhw – cyflwynwyr y dyfodol!
Eto, mae fy niolch yn fawr i'r holl aelodau o staff am eu gwaith diflino yn paratoi'r ysgol i edrych mor groesawgar. Mae'r staff wedi bod cysylltu yn unigol gyda phawb sydd yn dod nôl atom o Fehefin 29ain gyda'r trefniadau. Os am ryw reswn dydych chi ddim wedi cael galwad, a wnewch chi gysylltu os gwelwch yn dda.

Hoffwn gadarnhau rhai negeseuon pwysig:

- Mae gan yr ysgol system un ffordd, yn cychwyn o'r maes parcio. Mae calonnau ar y llawr i ddangos pellter o 2 fetr a gofynnwn yn garedig i chi sefyll ar y calonnau os gwelwch yn dda. Y drws yng nghanol y neuadd bydd yr **unig fynediad** i'r ysgol a'r drws ar bwys dosbarth Llywelyn (Miss Jones) bydd yr **unig allanfa**.
- Bydd tymheredd pob plentyn yn cael ei gymryd cyn iddynt fynd mewn i'r ysgol. Os fydd eu tymheredd yn uwch na 37.5°C gofynnir iddynt fynd adref a hunan-ynysu.
- Ni fydd yn bosibl i rieni ddod mewn i'r ysgol.
- Bydd y plant **yn cyrraedd ac yn gadael ar amseroedd gwahanol** ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Mae'r athrawon wedi rhannu'r rhain gyda chi wrth wneud galwadau ffôn. Gofynnwn yn garedig ichi gadw at yr amseroedd hyn os gwelwch yn dda.
- Mae cyfleusterau golchi dwylo o gwmpas yr ysgol yn ogystal â hufen dwylo felly nid oes angen i'r plant ddod â rhain eu hunain.

Rhestr o bethau i gofio:

- ✓ Pecyn bwyd yn cynnwys pecyn iâ a diod
- ✓ Cas bensil gyda phensiliau / ffeltiau lliw
- ✓ Eli haul a het haul
- ✓ Dillad cyfforddus ac addas i bob tywydd. Bydd y plant ar yr iard ymhob tywydd yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff ac allan yn chwarae. (Cot law, het haul, esgidiau addas). Nid oes angen iddynt wisgo gwisg ysgol.

Fel rydych yn ymwybodol, bydd yr athrawon yn parhau i drefnu tasgau ar Seesaw/Teams. Bydd y cynorthwywyr hefyd yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda chi. Os oes gennych chi unrhyw broblem, mae croeso ichi gysylltu gyda ni.
Edrychwn ymlaen at eich gweld,
Mrs Jan Jones

Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar
Ffôn/Phone: 01974 241 334

E bost/ E mail: prif@llanilar.ceredigion.sch.uk
Gwefan / Website: www.llanilar.ceredigion.sch.uk
Trydar / Twitter: @YsgolLlanilar

Pennaeth / Head Teacher: Mrs Jan Jones

Dear Parents,
The time to re-open the school is getting nearer and we're looking forward to seeing you. Steffan and Leisa have created a video to welcome everyone back, so look out for it on Seesaw and Twitter. Many thanks to them - presenters of the future!
Again, my sincere thanks to all the staff for their tireless work in preparing the school and making it look so welcoming. The staff have been contacting everyone who is coming back from June 29th with all the arrangements. **If, for some reason, you haven't received a call, please get in touch.**

Here are some important messages:

- The school has a **one way system,** starting from the car park. There are hearts on the floor to show a distance of 2 meters and we kindly ask you to stand on the hearts.
- The door in the middle of the hall will be the **only entrance** into the school and the door for Dosbarth Llywelyn's class (Miss Jones) will be the **only exit.**
- Every child will have their temperature taken before they enter the school. If their temperature is above 37.5C they will be asked to go home and self-isolate.
- It will **not be possible** for parents to enter the school.
- **Children arrive and leave at different times** at the beginning and end of the day. Teachers have shared these arrangements with you when making phone calls. Please kindly adhere to these times.
- There are handwashing facilities around the school as well as hand creams so children do not need to bring their own.

List of things to remember:

- ✓ Every child will need a packed lunch containing an ice pack and water
- ✓ Pencil case with coloured pencils / felt
- ✓ Sunscreen / sun hat
- ✓ Comfortable clothing. Children will be outside as much as possible and in all weathers. (Raincoat, sun hat, suitable footwear). They do not need to wear school uniform.

As you are aware, teachers will continue to send tasks on Seesaw / Teams. The teaching assistants will also continue to keep in touch with you with phone calls. If you have any problems, feel free to get in touch.

We look forward to seeing you,
Mrs Jan Jones